



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020



Dewch i greu'r dyfodol gyda'n gilydd

COVID-19

Cyhoeddi Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol

Mewn ychydig fisoedd yn unig mae argyfwng COVID-19 wedi newid ein byd yn syfrdanol. Er mwyn cyflawni fy nyletswyddau statudol i gyhoeddi adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol flwyddyn a diwrnod cyn Etholiadau nesaf y Cynulliad, bu'n rhaid imi gyhoeddi Adroddiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf yn ystod yr argyfwng Coronavirus, o ganlyniad i hynny ac o fewn gofod ychydig fisoedd, mae'r byd wedi newid yn gyflym ac yn sylweddol i bob un ohonom.

Mae hwn yn adroddiad mawr na fyddai yn ddelfrydol yn cyrraedd yn ystod yr argyfwng presennol, pan fydd sylw yn ddealladwy mewn mannau eraill. Fe'i hysgrifennwyd dros y flwyddyn ddiwethaf gan dynnu ar wybodaeth a gasglwyd ers i'r Ddeddf ddod i rym bedair blynedd yn ôl. Mae'r gallu i ddarparu dadansoddiad manwl o oblygiadau'r feirws yn gyfyngedig ond rwyf wedi tynnu sylw at rai myfyrdodau cynnar.

Rwy'n glir er bod goblygiadau'r feirws hwn yn anodd iawn i ni nawr mae'n debygol y bydd ei effaith arnom am nifer o flynyddoedd i ddod. Wrth inni oroesi'r argyfwng hwn bydd ein gweithredoedd heddiw yn gofyn I ni feddwl am ba bethau ydyn ni am adael ar ol a pa bethau cadarnhaol yr ydym ni am ei gofio a chadw.

Rydym yn byw mewn cyfnod cythryblus ac ansicr. O'r pwysau ar ein gwasanaethau cyhoeddus, tristwch o golli bywydau, ein arwahanrwydd o fod gyda teulu a ffrindiau a'r potensial am ddifrod hirdymor i'r economi, swyddi a bywoliaethau. Serch hyn, rwyf hefyd yn gweld arferion rhagorol yn dod i'r amlwg o sut mae cyrff cyhoeddus yn ymateb. Mae llawer o hyn yn unol â dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – gweithio mewn partneriaeth, ymgysylltu â'r sector breifat i ddod o hyd i atebion arloesol, ffyrdd newydd o weithio, mwy o ddefnydd o dechnoleg wrth ddarparu gwasanaethau, llai o allyriadau carbon a mae rhaglenni sy'n gweithio gyda chymunedau i ddarparu gwasanaethau yn arbennig o nodedig.

Ni fu erioed yr angen i feddwl a chynllunio ar gyfer y dyfodol mor berthnasol ac mae llawer o'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn ceisio tynnu sylw at sut y gallwn wneud hynny'n well. Mae dau gam ym mhob argyfwng; y cyntaf lle rydych chi'n ymateb a'r ail lle rydych chi'n dysgu ac i fod yn llwyddiannus mae'n rhaid i chi gael y ddau.



Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu fframwaith arweiniol ar gyfer sut y dylem geisio ymateb yn y tymor byr a'r hirdymor i'r argyfwng hwn a gwneud y penderfyniadau cywir i'n helpu i symud tuag at ragolwg hirdymor ac ataliol ar sut rydym yn rhedeg ein cymdeithas a'n gwasanaethau cyhoeddus.

Ac felly yn ystod y misoedd nesaf, gan weithio gyda'r Comisiynwyr eraill a sefydliadau allweddol eraill yng Nghymru, byddaf yn darparu cyngor ac yn rhannu enghreifftiau o arferion da a drwg sy'n deillio o'r achosion o COVID-19 i sicrhau bod Cymru'n parhau i ddod yn agosach at y weledigaeth a osodwyd allan yn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac nid yw'n symud tuag yn ôl yn dilyn y pandemig.

Er y bydd yn hanfodol i'r holl wasanaethau cyhoeddus ymateb i'r adroddiad hwn mewn pryd, rwyf wedi ei gwneud yn glir nad wyf yn disgwyl iddynt ymateb i'r adroddiad hwn yn ystod y misoedd nesaf tra'u bod yng nghanol delio â'r pandemig. Mae'n iawn eu bod yn canolbwyntio eu sylw ar ddelio â hyn yn y tymor yma. Byddaf yn adolygu'r sefyllfa hon bob tri mis i benderfynu pryd y byddaf yn disgwyl ymateb gan gyrff cyhoeddus i'm canfyddiadau ac argymhellion.

Fel pawb yng Nghymru a ledled y byd, hoffwn fynegi diolch i bawb sy'n helpu ein cymdeithas i wynebu'r amseroedd digynsail hyn - ein gwasanaethau gofal iechyd, gwasanaethau brys a gweithwyr siop, gweision sifil a phawb sy'n darparu gwasanaethau hanfodol i bobl Cymru. Mae arnom ddyled fawr i'r bobl hyn ond mae'n ddyled arnom iddynt hefyd i sicrhau, cyn belled ag y gallwn, y gallwn ddefnyddio'r argyfwng hwn i sicrhau'r newid y mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei geisio a gwneud ein cyfraniad at adael Cymru a'r byd yn well nag y cawsom hyd iddo.

"Mae bywyd o hyd yn aros am argyfwng er mwyn dangos ei hun ar ei orau."



Paul Coelho



Tabl Cynnwys

Cyflwyniad

Datganiad COVID-19	01
Rhagair	04
Diolchiadau	07
Pwrpas yr adroddiad	12
Gofynion cyfreithiol	13
Trosolwg o'r Ddeddf	14
Defnyddio'r Ddeddf i gynhyrchu'r adroddiad	16
Sut i ddefnyddio'r adroddiad	20
Strwythur yr adroddiad	23

PENNOD 1 - Y Weledigaeth

Pam fod llesiant yn bwysig?	26
Yr heriau o'n blaenau	27
Cymru a'r Byd: y cyd-destun byd eang	28
Y Gymru a garem 2050	34
Ble nesaf?	36



Rhagair

Rwyf wedi bod yn fy swydd fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf Cymru ers 2016. Yn ystod yr amser hwnnw, mae'n deg dweud fy mod wedi siarad am genedlaethau'r dyfodol gyda bron pawb yr wyf wedi cwrdd â nhw.

O arweinwyr byd-eang, i'r pobl sy'n byw yn ein cymunedau yng Nghymru, i brif weithredwyr busnesau ac i'm siop trin gwallt leol. Busnes pawb yw cenedlaethau'r dyfodol - mae hynny'n dod yn fwyfwy amlwg p'un a yw llunwyr polisi yn ei hoffi ai peidio. Nid yw cyfiawnder rhwng cenedlaethau bellach yn fater y gallwn osgoi.

Mae ein cenedlaethau iau yn ein herio ar fethiannau penderfyniadau y gorffennol, ac yn anffodus, yn aml penderfyniadau yn y presennol sy'n methu ag ystyried eu dyfodol - i rai mae'n chwithig, efallai, ond mae hefyd yn angenrheidiol. A gyda symudiadau ieuenctid yn adeiladu ledled y byd, ochr yn ochr â gostyngiad yn yr oedran pleidleisio yma yng Nghymru, ni all llunwyr polisi anwybyddu materion sy'n ymwneud â chenedlaethau'r dyfodol mwyach.

Mae llawer o wledydd yn edrych i ddilyn arweiniad Cymru wrth wella bywydau cenedlaethau'r dyfodol, ond roeddem yn ddewr wrth gymryd y cam cyntaf hwnnw.

Tra bod deddfwriaeth a newidiadau polisi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn dod yn eu blaen ym Mhortiugal, Gibraltar, Canada a hyd yn oed yn Senedd y Deyrnas Unedig, Cymru yw'r unig wlad o hyd i ddeddfu ar gyfer anghenion cenedlaethau'r dyfodol ac i ymgorffori Nodau Datblygu Cynaliadwyedd y Cenhedloedd Unedig mewn cyfraith.

Rydym wedi gwneud tipyn o sioe gyda'n Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ond rwy'n realistig, er bod llawer yn siarad am daith i weithredu, rydw i'n ei weld fel ein bod yn cychwyn alldaith. Rhywbeth y mae'n rhaid i chi fod â'r dewrder amdano, yr adnoddau a'r dulliau ar eu cyfer a'r penderfyniad i wneud pethau anodd; pethau na wnaed erioed o'r blaen.



Sophie Howe

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Ledled Cymru, rwy'n gweld y fframwaith deddfwriaethol yn ysbrydoli ac yn cyflawni pob un o'r agweddau hyn, ond mae hyn fel arfer ar draul gweld yr holl bethau hyn yn holistaidd ac fel rhannau hanfodol o sicrhau newid hirdymor. Mae angen i ni nawr, fod yn feiddgar yn y ffyrdd rydyn ni'n gwireddu hynny.

Felly, rydyn ni bedair blynedd i mewn. Beth sy'n newid?

Mae ysgrifennu'r adroddiad wedi rhoi cyfle perffaith i mi bwysu a mesur yr hyn a gyflawnwyd hyd yma gan grynhoi'r wybodaeth, y sgysiau a'r wybodaeth y mae fy swyddfa a minnau wedi'u casglu dros y pedair blynedd diwethaf. Ac mae'n deg dweud bod pethau da yn digwydd a bod pethau'n newid oherwydd y Ddeddf.



Gallaf weld bod yna mudiad cynyddol sydd am newid; pobl sy'n credu mewn gwella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru. Ma' nhw'n ysu i weithio'n wahanol yn eu sefydliadau eu hunain ac yn ehangach, yn aml yng nghanol cefndir o ansicrwydd gwleidyddol a llymder parhaus.

Rwy'n gweld hyrwyddwyr unigol y Ddeddf, a'i ffyrdd o weithio, yn newid y ffordd y mae cynllunio trafndiaeth yn cael ei wneud yn ein prifddinas, gan ddiwygio'r ffordd rydyn ni'n meddwl am gadw pobl hŷn yn iach, symud y tu hwnt i ddarparu 'gwasanaethau' i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl. Rwy'n gweld gwleidyddion yn gwrthod gweithio'n draddodiadol o fynd i'r afael â thagfeydd trwy adeiladu mwy o ffyrdd, ac yn lle hynny chwilio am atebion sy'n well i lesiant pobl a'r blaned.

Rwy'n gweld fframwaith y gyfraith yn gyrru penderfyniadau contractio fel bod buddsoddiad mewn contract rheilffordd newydd yn cael ei wneud mewn ffordd a fydd hefyd yn helpu i fynd i'r afael â thlodi trwy ddarparu prisiau rhatach mewn ardaloedd mwy difreintiedig, a fydd yn defnyddio cadwyn gyflenwi menter gymdeithasol ac yn defnyddio ynni o Gymru.

Rwy'n gweld newid polisi cenedlaethol i gefnogi llesiant, gwynnwch yn yr hinsawdd ac adfer natur, gyda chreu lleoedd (placemaking) yn egwyddor graidd o ran sut rydym yn cynllunio, dylunio ac adeiladu cymunedau.

Rwy'n gweld cyflwyno cwricwlwm addysg newydd lle bydd pobl ifanc yn cael eu cefnogi i fod yn ddinasyddion creadigol, mentrus sy'n foeseogol gwybodus.

Ond er bod pethau'n newid, mae angen i fwy ddigwydd ar draws y sector cyhoeddus i wireddu'r nodau llesiant. Lle mae pethau da yn digwydd, ymddengys eu bod yn ddarnau o jig-so nad ydyn nhw bob amser yn ffitio i mewn i'r bocs ehangach sefydliadol.

Rwyf hefyd yn gweld bylchau wrth weithredu. Weithiau, mae'n ymddangos ein bod wedi canolbwyntio ar y broses yn hytrach na'r newid diwylliannol sydd ei angen, weithiau mae'n ymddangos bod diffyg cefnogaeth ac adnoddau i helpu pobl i symud o'r hen ffyrdd i ffyrdd newydd o feddwl, ac weithiau, nid yw'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei wneud yn ymarferol ynddo yn unol â'r hyn y mae'n dweud y bydd yn ei wneud ar bapur, ac yn wir, y gyfraith.

Er mai nhw oedd y rhai a aeth â'r Ddeddf yn ei blaen, rwyf wedi darganfod nad yw Llywodraeth Cymru wedi darparu adnoddau digonol ar gyfer gweithredu'r Ddeddf o ran datblygu arweinyddiaeth a chyflawni'r seilwaith sy'n ofynnol i ysgogi newid.

Trwy gydol gweddill fy nhymor, byddaf yn parhau i gefnogi a herio pawb sydd am gyfrannu at ein nodau cenedlaethol a byddaf yn gryfach yn fy agwedd at gyrrff cyhoeddus sy'n methu â gweithredu'r newidiadau trawsnewidiol sydd eu hangen.

Ond lle dwi'n cymryd gobaith yn ddyddiol, yn aml yw'r newidiadau syml. Er gwaethaf Brexit a llymder, rwy'n clywed bob dydd am y prosiectau bach, y pobl sydd wedi brwydro i gynnal menter ar lawr gwlad oherwydd eu bod yn gwybod mai dyna'r peth iawn i'w wneud. Y pobl sy'n gweld ffordd wahanol o wneud pethau ac sy'n anfaddeuol i wneud yn siwr bod y rai sy'n anwybyddu, yn cael ei herio.



Y fam sy'n ymgyrchu dros wahardd gwellt plastig yn yr ysgol. Y gwas sifil sy'n ailysgrifennu polisi caffael er gwaethaf gwrthwynebiad a rhwystrau cyson. Y person ifanc sy'n ysgrifennu at ei Aelod Cynulliad Lleol i gwestiynu sut mae'r llywodraeth yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Y Gweinidog sy'n gofyn y cwestiynau heriol ac na fydd yn cymryd dim am ateb. Nhw yw'r bobl sy'n gwneud y ddeddfwriaeth hon yn realiti. Y bobl rwy'n hoffi cyfeirio atynt fel y 'hyrwyddwyr rhwystredig'. Mae yna lawer yn ein sector cyhoeddus yng Nghymru, ond maen nhw'n aml ym mhob cefndir.



Weithiau, pan fydd pobl yn siarad am y dyfodol, mae'n ymddangos mai awtomeiddio a robotiaid yw'r peth cynta' sy'n dod i feddwl rhai. Mae'n ymddangos bod rhai yn meddwl hefyd y daw bwled arian technolegol a fydd yn datrys ein holl sialensau. Efallai un diwrnod, gallai hynny ddod yn realiti, ond nid dyna lle rwy'n cael fy ngobaith ar gyfer y dyfodol.

Rwy'n cael fy ngobaith gan y nifer cynyddol hwn o hyrwyddwyr rhwystredig sydd allan yna yn cynhyrfu, yn gwylltio ac sy'n siarad â gwirionedd a phŵer ac sy'n herio ein arweinwyr i'w wireddu.

Gyda nhw, rydyn ni'n adeiladu mudiad ar gyfer newid yma yng Nghymru a fydd yn atseinio ledled gweddill y byd.



Dewch i ymuno â ni.



Diolch yn Fawr

Dewch i gyfarfod â'm Tîm gwych a weithiodd mor galed gyda mi i gynhyrchu'r adroddiad a'r cyngor hwn.



Marie Brousseau-Navarro

Cyfarwyddwr Polisi, Deddfwriaeth ac Arloesi

Marie oedd Rheolwr Brosiect yr adroddiad hwn, gan gydlynu'r tîm ysgrifennu a'r holl waith ar gyfer y fersiynau PDF a gwefan yr adroddiad. Hi hefyd oedd ein hysgrifennwr ar gyfer y Bennod Gynllunio.



Rebecca Brown

Cynllunydd Cyfathrebu

Roedd Rebecca yn un o'n golygyddion, ein hysgrifennwr ar gyfer Pennod 1 a'n harweinydd cyfathrebu.



Susan Crutcher

Rheolwr Swyddfa

Susan oedd cydlynnydd y tîm cymorth, gan sicrhau ein bod yn cael y cymorth cywir ar yr adeg iawn.



Abby Dickinson

Arloeswr Digidol

Abby oedd ein dylunydd, yn arwain ar y fersiwn PDF a fersiwn gwefan yr adroddiad.



Jacob Ellis

Arweinydd Ysgogi Newid

Jacob oedd ein cynghorydd ar elfennau rhyngwladol, syniadau arloesol ac arweinydd materion cyhoeddus. Roedd hefyd yn gynghorydd ar gynnwys a fe gefnogodd yn ysgrifennu'r adran ar Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.



Amanda Evans

Pennaeth Adnoddau Dynol

Darparodd Amanda gefnogaeth foesol a llesiant y tu ôl i'r llenni gyda'r adnoddau, llywodraethu a gwaith risg.



Sam Guy

Swyddog Cynorthwyol y Tîm

Roedd Sam yn un o'n ymchwilwyr a phrawfddarllenwyr.



Najma Hashi

Swyddog Cynorthwyol y Tîm

Roedd Najma yn un o'n ymchwilwyr, prawfddarllenwyr ac fe gefnogodd gyda'r Bennod ar Gymru sy'n fwy Cyfartal.



Elle Henley-Herat

Ysgogwr Newid

Elle oedd yr arweinydd ar y gwaith cynnwys.



Alice Horn

Swyddog Dadansoddi

Bu Alice yn un o ymchwilwyr y prosiect ac fe gefnogodd y bennod ar gaffael.



Rhiannon Jenkins

Prentis

Cydlynodd Rhiannon y cyfieithiadau Cymraeg ac holl fersiynau Cymraeg yr adroddiad.



Bonnie Navarra

Arweinydd Ysgogi Newid

Bonnie oedd y prif awdur ar gyfer adrannau'r adroddiad ar Dai ac Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod



Helen Nelson

Cynllunydd Corfforaethol

Roedd Helen yn un o'n prif olygyddion ar gyfer pob pennod o'r adroddiad, yn gynghorydd ar gynnwys ac yn bwynt cyswllt â'm ymgynghoriadau statudol.



Sang-Jin Park

Swyddog Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol

Darparodd Amanda gefnogaeth foesol a llesiant y tu ôl i'r llenni gyda'r adnoddau, llywodraethu a gwaith risg.



Louisa Petchey

Swydd a rennir gyda lechyd Cyhoeddus Cymru ar y Dyfodol

Louisa oedd prif ymchwilydd a chynghorydd ar elfennau y dyfodol yr adroddiad hwn.





Eurgain Powell

Ysgogwr Newid

Eurgain oedd ein hysgrifennwr ar gyfer yr adrannau ar Drafnidiaeth, Datgarboneiddio a Chaffael.



Clare Johnson

Swyddog Cyfranogi

Clare oedd ein prif swyddog cyfranogiad nes iddi ymddeol ym mis Chwefror 2020, a helpodd i drefnu'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau rhanddeiliaid.



Hollie Leslie

Swyddog Cynorthwyol y Tîm

Roedd Hollie yn un o'n prif ddylunwyr fersiynau Cymraeg yr Adroddiad ac yn gyfieithydd.



Cathy Madge

Arweinydd Ysgogi Newid

Roedd Cathy yn awdur ar gyfer yr adrannau ym Mhennod 3 a 4 ar Iechyd a Chyllideb; bu hefyd yn helpu gyda Cymru sy'n fwy cyfartal.



Petranka Malcheva

Swyddog Gohebiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfreithiol

Pep oedd un o'r prif ymchwilwyr a golygyddion ar gyfer mwyafrif penodau'r adroddiad hwn; roedd hi'n awdur allweddol pennodau Cymru Diwylliannol, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Thai.





Heledd Morgan

Arweinydd Ysgogi Newid

Heledd oedd ein hysgrifennwr ar gyfer y Bennod Newid Diwylliannol, yr adran ar Sgiliau ar gyfer y Dyfodol; Cynhaliodd y rhan fwyaf o'r dadansoddiad ar amcanion llesiant ac roedd yn brif ysgrifennwr yr amcanion llesiant da.



Christian Servini

Ysgogwr Newid

Roedd Christian yn gyfrifol am ysgrifennu Pennod 3 - cynnydd ar y saith nod llesiant, a chynghor ar ddylunio amcanion llesiant da.



Helen Verity

Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu Corfforaethol

Darparodd Amanda gefnogaeth foesol a llesiant y tu ôl i'r llenni gyda'r adnoddau, llywodraethu a gwaith risg.

Diolch

Rwy'n ddiolchgar am yr oruchwyliaeth a ddarparwyd gan fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (PASR).



Alan Morris

Cadeirydd PASR



Jocelyn Davies

Aelod PASR



John Dwight

Aelod PASR



Gareth Madge

Aelod PASR



Jonathan Morgan

Aelod PASR



Fran Targett OBE

Aelod PASR

Pwrrpas yr Adroddiad

Mae cynhyrchu Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol bob pum mlynedd sy'n darparu asesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud mewn perthynas â'u hamcanion llesiant yn ddyletswydd statudol ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Ond yn fwy na dim ond cyflawni 'dyletswydd' mae'r adroddiad hwn wedi'i gynllunio i esbonio'n glir ac mewn sawl ffordd wahanol o sut y mae modd gwella ein llesiant ar y cyd, drwy ddefnyddio'r Ddeddf.

Mae hyn yn golygu edrych ar y gwahanol elfennau o'r Ddeddf, fel y pum ffordd o weithio, y nodau llesiant ond hefyd drwy enghreifftiau go iawn. Rwyf am egluro sut y dylai'r Ddeddf weithio'n ymarferol a cheisio dangos y weledigaeth, yr uchelgais a'r adnoddau i gyflawni hyn.

Rwyf am ddathlu ein cyflawniadau hyd yn hyn ac rwyf wedi cynnwys nifer o enghreifftiau o arfer da sydd eisoes yn digwydd ledled Cymru ond byddaf hefyd yn herio lle bo'r cynnydd yn brin. Tynnaf eich sylw hefyd at yr holl gyfleoedd na ddylem eu colli yn y presennol neu'r dyfodol agos. Rwy'n realistig ac mae cryn dipyn i'w wneud eto. Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ar ddechrau'r daith. Maent wedi dod o hyd i'w traed; mae holl elfennau'r ddeddfwriaeth ar waith ac yn awr mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i gynyddu cyflymder.

Rwy'n realistig ac mae cryn dipyn i'w wneud eto. Mae Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru ar ddechrau'r daith. Maent wedi dod o hyd i'w traed; mae holl elfennau'r ddeddfwriaeth ar waith ac yn awr mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i gynyddu cyflymder.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu cyngor, arweiniad ac adnoddau ymarferol i gyrff cyhoeddus sy'n mynd i'r afael â gwneud y dyheadau a nodir yn y gyfraith arloesol hon yn realiti i bobl yng Nghymru. Y bwriad hefyd yw ysbrydoli gweithredu trwy arddangos gweithredoedd mawr a bach sy'n digwydd yng Nghymru ac ar draws y byd.



Gofynion Cyfreithiol

Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn ddyletswydd gyfreithiol ar y Comisiynydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf") a dyma mae'r Ddeddf yn mynnu:

Adran 23 Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol:

(1) Rhaid i'r Comisiynydd baratoi a chyhoeddi, cyn diwedd pob cyfnod adrodd, adroddiad sy'n cynnwys asesiad y Comisiynydd o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn gosod amcanion llesiant, a'u cyflawni, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

(2) Rhaid i adroddiad y Comisiynydd gynnwys, yn benodol, asesiad o sut y dylai cyrff cyhoeddus—

(a) gwella'r modd o ddiogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion, a

(b) cymryd mwy o ystyriaeth o effaith hirdymor yr hyn a wnânt."

Ar y cyfan, rhaid i'r adroddiad hwn gynnwys:

- Asesiad o sut y gall cyrff cyhoeddus ddiogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gyflawni eu anghenion; a cymryd mwy o ystyriaeth o effaith hirdymor y pethau maen nhw'n eu gwneud.
- Crynodeb o'r dystiolaeth, a'r gweithgareddau yr ymgwymerwyd â hwy, gan y Comisiynydd yn ystod y cyfnod adrodd.
- Crynodeb o'r adolygiadau a gynhaliwyd gan y Comisiynydd; a chyfrif o'r ymchwil neu astudiaethau eraill a gymerwyd.
- Unrhyw wybodaeth arall y mae'r Comisiynydd yn ei hystyried sy'n briodol.

Yr gyfer y tro cyntaf hwn, y cyfnod adrodd yw'r 6 Mai 2017 - 5 Mai 2020 a rhaid i'r adroddiad gael ei gyhoeddi erbyn 5 Mai 2020.

Ar ôl ei gyhoeddi, rhaid i Weinidogion Cymru, cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ystyried yr adroddiad wrth osod, neu adolygu, eu hamcanion llesiant.



Trosolwg o'r Ddeddf

Yn 2015, pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru 'Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)', gan ymrwymo uchelgeisiau datblygu cynaliadwy ein cenedl o fewn deddfwriaeth a chreu swydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i hybu datblygu cynaliadwy; i weithredu fel 'gwarcheidwad cenedlaethau'r dyfodol'.

Mae'r Ddeddf yn ymwneud â sicrhau nad yw'r penderfyniadau a wneir heddiw ar draul llesiant cenedlaethau'r dyfodol ac y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn gallu diwallu eu hanghenion eu hunain.

Hyd yn hyn, Cymru yw'r unig wlad o hyd i osod dyletswyddau i amddiffyn anghenion cenedlaethau'r dyfodol ac i ymgorffori nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig mewn cyfraith. Arweiniodd hyn at y Cenhedloedd Unedig i ddweud, 'yr hyn y mae Cymru yn ei wneud heddiw, rydym yn gobeithio y bydd y byd yn ei wneud yfory!'.

Yn syml iawn, mae'r Ddeddf yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Yn hanfodol, mae pob un o bedwar dimensiwn llesiant yr un mor bwysig â'i gilydd; ni ellir blaenoriaethu'r economi ar draul yr amgylchedd. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i gydnabod pwysigrwydd llesiant diwylliannol hefyd.



Sophie Howe a Julie Gelfand, Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy




Mae'r Ddeddf yn berthnasol i 44 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i sicrhau eu bod yn meddwl am y hirdymor wrth wneud penderfyniadau, ac i gyflawni'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Ac mae hynny'n cynnwys yr holl awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, cyrff cenedlaethol fel y Llyfrgell Genedlaethol ac Amgueddfa Cymru, byrddau iechyd, ac awdurdodau tân ac achub lleol.

Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn nodi saith nod llesiant cenedlaethol, gan nodi ein dyheadau ar gyfer y Gymru yr ydym ei eisiau.

Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyfrannu at y nodau hyn trwy osod eu hamcanion a'u camau eu hunain i geisio eu cyflawni, ac yna mae'n rhaid iddynt gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hyn a ddewiswyd ganddynt hwy eu hunain.




Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi pum ffordd o weithio (a elwir yn 'Egwyddor Datblygu Cynaliadwy') y dylai cyrff cyhoeddus eu defnyddio i gyflawni'r weledigaeth honno. Y rhain yw: hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio, cynnwys a chydweithio.



Defnyddio'r Ddeddf i gynhyrchu'r adroddiad

Un o bwrpas craidd fy swyddfa yw i 'weithredu yn ogystal a thrafod' y Ddeddf ac yn arwain trwy esiampl. Rydym ni, fel yr ydym yn mynnu bod eraill yn ei wneud, wedi defnyddio'r 'pum ffordd o weithio' i gyflwyno'r adroddiad hwn a dylai fy nghyngor trwy gydol yr adroddiad hwn ein helpu ar ein taith tuag at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol.



Integreiddio

Mae bron pob agwedd ar sut rwy'n disgrifio cynnydd ac yn annog newid yn gwneud cysylltiad ar draws nifer o'r nodau - gan ddangos sut y gall cyrff cyhoeddus feddwl am 'beth' maen nhw'n ei wneud i wneud y cyfraniad mwyaf at y nodau llesiant ac yna 'sut' maen nhw'n ei wneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer buddion ehangach. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ac yn dwyn ynghyd y cyngor a'r adnoddau yr wyf wedi cyhoeddi hyd yma. Mae'n adlewyrchu holl syniadau fy ngwaith hyd yn hyn, y dystiolaeth rydw i wedi'i chasglu, y gwersi a ddysgwyd, a sail y gwaith y bydd fy nhîm yn ei wneud yn y blynyddoedd i ddod. Mae hefyd yn cyfeirio'n glir at waith sefydliadau eraill fel sy'n briodol.



Atal

Trwy gydol yr adroddiad hwn, rwyf wedi dangos pwysigrwydd atal ac wedi tynnu sylw at pam ei fod yn rhan annatod o'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.



Hirdymor

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried yr hyn y mae Cymru wedi'i gyflawni eisoes gyda'r Ddeddf ac yn edrych tuag at y tueddiadau a'r rhagfynegiadau hirdymor i ddeall yr hyn y mae angen i ni ei wneud yn wahanol. Mae fy nghyngor yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol, trafodaethau ag arbenigwyr a defnyddio dulliau o feddwl a rhagweld y dyfodol. Fy mwriad yw gallu rhoi trosolwg gwrthrychol o'r hyn y gallai ac y dylai'r hirdymor edrych i Gymru a bydd yr adroddiad yn edrych ar lle'r ydym yn mynd ar hyn o bryd ac ble'r ydym eisiau mynd.



Defnyddio'r Ddeddf i gynhyrchu'r adroddiad



Cydweithio

Ni ellid bod wedi cynhyrchu adroddiad o'r maint hwn ar ei ben ei hun na chan fy swyddfa yn unig. Mae hyn wedi bod yn benllanw gwaith o gydweithio dros y pedair blynedd diwethaf, o ymgysylltu â'r cyhoedd, rhanddeiliaid, y sector gwirfoddol, academyddion, arbenigwyr, y sector breifat, gwleidyddion, grwpiau cymunedol, cynghorau tref a chymuned, i grwpiau rhyngwladol. Rwyf wedi ceisio cynnwys a chydweithio gyda'm Panel Cynghori statudol, y Comisiynwyr eraill ac Archwilio Cymru er enghraifft, er mwyn sicrhau bod ein pwerau a'n argymhellion yn cydweld ac osgoi dryswch i'r cyrff cyhoeddus yr ydym i gyd yn eu cefnogi neu'n eu rheoleiddio. Mae fy swyddfa wedi'i hadeiladu ar egwyddorion cydweithredu o dros tri deg secondiad, profiad ar leoliad, a phenodi ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill, sefydliadau trydydd sector a sefydliadau academiaidd. Mae fy nhîm hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid dibynadwy, sydd wedi ein cynghori, ein herio, ein cefnogi a rhannu eu mewnwelediad ar gyfer pob un o'r Penodau. Rwyf yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cymryd amser i gyfrannu safbwyntiau a syniadau, darllen drafftiau, rhannu syniadau arloesol, ysgrifennu atom, ac sydd wedi cydweithio gyda fy swyddfa.



Defnyddio'r Ddeddf i gynhyrchu'r adroddiad



Cynnwys

Yn ychwanegol at fy ymgyfraniad parhaus â phobl ledled Cymru, rwyf wedi ymgymryd â gweithgareddau ychwanegol i gynhyrchu'r adroddiad hwn. Mae fy null gweithredu wedi'i nodi'n fanylach yn Atodiad 1. Rwyf wedi cynnwys barn dros 5,000 o bobl wrth lunio'r adroddiad hwn, gan ystyried:

- Cyfarfodydd fy Mhanel Cyngori statudol
- Digwyddiadau rhanddeiliaid rhanbarthol
- Cysylltiadau gan aelodau'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig
- Fy Llwyfan y Bobl - teclyn ar-lein i bobl ddweud eu straeon wrthyf
- Sgyrsiau gyda busnesau
- Fy rownd gyntaf o fonitro ac asesu statudol ymgysylltu â'r holl gyrff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf
- Cyfranogiad eang gyda channoedd o sefydliadau trwy fy Rhaglen Y Gallu i Greu sy'n sail y cyngor i gyrff cyhoeddus ym Mhennod 3
- Gweithio trwy rwydweithiau fel Cyngor Gweithredol Gwirfoddoli Cymru ac Un Llais Cymru i gyrraedd grwpiau cymunedol a gwirfoddol
- Y nifer fawr o arbenigwyr a rhanddeiliaid sydd wedi gwneud sylwadau ar ddrafftiau ac wedi helpu gyda'r syniadau, yr argymhellion a'r Syniadau Arloesol a geir ym Mhennod 5

Mae'n bwysig cydnabod y mewnbwn a'r cyfraniadau aruthrol sydd wedi llywio fy marn i a barn fy nhîm ac wedi gwneud yr adroddiad hwn yn bosibl.





Ymwadiad

Rwyf wedi cymryd agwedd gymesur tuag at gasglu gwybodaeth wrth ymdrin a chynnwys cyrff cyhoeddus a hobl yn yr adroddiad yma (gan ofyn i gyrff cyhoeddus, rhanddeiliaid allweddol a chyfranwyr unigol a grŵp am dystiolaeth a barn ac o bryd i'w gilydd fe ofynwyd iddynt am eu barn ar yr un materion, neu ar faterion tebyg.) Fe ddefnyddiais y dull yma o weithio ermwyn sicrhau tegwch o ran cynrychiolaeth, ond hefyd yr angen am arbrofi, i fod yn gryno a chost-effeithlon. Disgrifir barn o fewn yr adroddiad fel - canfyddiadau, safbwyntiau neu adborth. Mae data neu sylwebaeth benodol arall neu yn seiliedig ar dystiolaeth (meintiol neu ansoddol) hefyd wedi'i nodi yn unol â hynny. Mae sawl math o wybodaeth a gefais yn eistedd rhwng y ddau. Rwyf wedi ymdrechu i roi cydnabyddiaeth ddyledus ac amlygrwydd priodol i'r holl fewnbynnau hyn yn yr adroddiad. Rwyf bob amser yn croesawu adborth ar y dull.



Sut i ddefnyddio'r adroddiad

Mae hwn yn adroddiad arwyddocaol y mae'n rhaid ei gynhyrchu gan bob Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol unwaith bob pum mlynedd (pedair blynedd i mi fy hun fel y Comisiynydd cyntaf).

O ystyried themau eang y Ddeddf, rôl y Comisiynydd a'i dyletswyddau statudol, mae'r adroddiad yn enfawr. Mae wedi'i rannu'n adrannau allweddol i'w wneud yn haws i'w ddefnyddio. Ochr yn ochr â'r adroddiad, bydd ystod o gynhyrchion ac adnoddau rhyngweithiol eraill yn cael eu cynhyrchu yn ystod y misoedd ar ôl eu cyhoeddi.

Trwy gydol yr adroddiad, rwyf wedi ceisio ysbrydoli, annog a bod yn glir ynghylch yr hyn sydd angen ei newid. Mae cyrraedd dyheadau'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni newid yr hyn a wnawn - y polisi - a sut rydym yn ei wneud - y broses - (neumewn geiriau arall, peiriannau'r Llywodraeth a'n cyrff sector cyhoeddus).

Trwy gydol yr adroddiad fe welwch fod yr adrannau canlynol wedi'u cyfeirio tuag at:

- Llywodraeth Cymru - gan gydnabod y rôl arwain benodol sydd ganddyn nhw
- Pob corff cyhoeddus a bwrdd sy'n dod o dan y Ddeddf (gan gynnwys Llywodraeth Cymru)

Argymhellion

Dyma 'beth' y dylai'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ei wneud o ran eu polisiâu a'u dulliau. Dyma'r pethau mwyaf arwyddocaol y dylid eu gwneud yn ystod y pum mlynedd nesaf yn fy marn i, i'n helpu i gyrraedd y nodau llesiant. Mae argymhellion penodol wedi'u cyfeirio at Lywodraeth Cymru ym mhob pennod ac eraill wedi'u cyfeirio at gyrff cyhoeddus.

Daw'r argymhellion a gyfeirir tuag at gyrff cyhoeddus ym mhob pennod yn bennaf o fy Rhaglen 'Y Gallu i Greu' a'r 'Teithiau' i bob un o'r nodau. Cyhoeddwyd y canllaw hwn yn 2019 ac mae'n cynnwys enghreifftiau ymarferol a champau mewn meysydd y dylai cyrff cyhoeddus ganolbwyntio arnynt wrth gyflawni'r nodau llesiant.

Stopio/Dechrau

Mae'r rhain yn ymwneud â 'sut' y dylai cyrff cyhoeddus wneud pethau. Maent yn canolbwyntio i raddau helaeth ar y pum ffordd o weithio, y broses ar gyfer gwneud penderfyniadau, ar gyfer gweithredu polisi a darparu gwasanaethau, a sut mae peiriannau'r sector cyhoeddus yn gweithio.

Cyngor ar osod amcanion llesiant

Mae'n ofynnol i mi yn yr adroddiad hwn ddarparu cyngor i gyrff cyhoeddus (am y tro cyntaf) ar osod a chwrdd ag amcanion llesiant. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried y cyngor hwn wrth osod neu adolygu eu hamcanion llesiant nesaf. Mae'r cyngor hwn yn berthnasol i bob corff cyhoeddus sy'n dod o dan y Ddeddf gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Syniadau Arloesol

Trwy gydol yr adroddiad hwn fe welwch Syniadau Arloesol ar sut y gallem wneud pethau'n wahanol. Fe'u cymerwyd o rai o'r enghreifftiau gorau o Gymru ac ar draws y byd, ac yn rhai penodol hefyd gan bobl Cymru. Eu nod yw ysbrydoli cyrff cyhoeddus, y sector gwirfoddol, busnesau a chymunedau i roi cynnig ar bethau newydd.

Mae rhai o'r syniadau hyn hefyd yn bethau y byddem dwi am i bleidiau gwleidyddol eu cofleidio yn eu manifestos ar gyfer etholiadau nesaf y Cynulliad neu lywodraeth leol, a dros y blynnyddoedd i ddod. Byddaf yn gweithio i ysbrydoli gwleidyddion i fabwysiadu'r polisiâu mwyaf blaengar i sicrhau'r dyfodol gorau i Gymru.



Sut i ddefnyddio'r adroddiad

O ystyried graddfa a maint Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae'r adroddiad hwn yn enfawr. Fe'i cynlluniwyd er mwyn rhoi cymaint neu gyn lleied o wybodaeth ag y dymunwch i chi ac i fod yn hygyrch i ystod o ddarllenwyr. Dyluniwyd yr adroddiad hwn i'w ddarllen yn electronig ac yn rhyngweithiol ar-lein. Mae hwn yn cael ei gynnal ar wefan arbennig.

Rydym hefyd wedi creu fersiynau fformat PDF o'r wefan fel y gallai'r adroddiad gael ei osod yn ffurfiol gerbron y Cynulliad.

Mae gennym ystod eang o fersiynau hygyrch ar gyfer yr adroddiad yma.

Rydym wedi dylunio'r adroddiad i fod yn rhyngweithiol.

Ar-lein, mae'r wybodaeth wedi'i strwythuro'n 3 lefel :

- Crynodeb byr
- Crynodeb gweithredol
- Ac os oes angen i chi weld testun llawn y Bennod neu'r adroddiad cyfan, yna cliciwch ar 'Mwy o Wybodaeth'.

Ar ochr dde'r sgrin, gallwch hefyd ddod o hyd i ddewislen o'r fersiynau PDF o adrannau, penodau, yr adroddiad cyfan neu ei grynoded gweithredol. Gallwch ddewis faint o fanylion rydych chi am eu gweld.



Gwrando ar sain

Os gwelwch y botwm hwn, mae darn o sain y gallwch wrando arno. Cliciwch yr eicon i'w glywed.



Chwarae fideo

Os gwelwch y botwm hwn, mae yna fideo y gallwch chi ei chwarae. Cliciwch yr eicon i'w chwarae.

Os oes angen mwy o gymorth arnoch, neu os ydych chi am roi adborth i ni, cysylltwch â'r tîm ar:

cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru



Ein Dyluniad a'n Cyflwyniad



Ar ddechrau pob pennod fe welwch fersiwn o'r map hwn, sy'n tynnu sylw at yr elfennau sy'n ymwneud â'r bennod rydych chi ar fin ei darllen.

Mae'r map hwn yn weledigaeth o ddyfodol Cymru, a chyfeirir at bob rhan o'r adroddiad hwn yn y llun hwn.



Strwythyr yr adroddiad

Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro'n 7 pennod:

Mae Pennod 1 'Y Weledigaeth' yn darparu gwybodaeth am y cyd-destun byd-eang ar gyfer ein gweledigaeth genedlaethol ar gyfer y dyfodol ac am bwysigrwydd llesiant.

Mae Pennod 2 yn edrych ar newid diwylliant o fewn cyrff cyhoeddus a'r defnydd o'r ffyrdd statudol o weithio.

Mae Pennod 3 yn edrych ar gynnydd yn erbyn y saith nod llesiant.

Mae Pennod 4 yn edrych ar y camau y gall cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu cymryd wrth lunio eu amcanion a camau llesiant.

Mae Pennod 5 yn edrych mewn mwy o fanylder ar fy meysydd ffocws (y meysydd yr wyf yn ystyried fel fy amcanion llesiant).

Mae Pennod 6 yn edrych ar y camau yr wyf i wedi'i gymryd i helpu cyrraedd y weledigaeth a 'beth nesaf' wrth wrthio'r adroddiad yma ymlaen gyda sectorau eraill i hyrwyddo a llwyddo i gael y Cymru a garem.

Mae Pennod 7 yn edrych ar fy nghynlluniau i gyda'r adroddiad yma ar ol cyhoeddi.

Mae pob Pennod ac adran yn dilyn strwythyr tebyg:

- Dod â'r weledigaeth a nodir yn y Ddeddf yn fyw trwy lens pob pwnc. Mae'n tynnu ar enghreifftiau rhyngwladol ac yn awgrymu 'syniadau arloesol' sy'n syniadau trawsnewidiol - mawr neu fach.
- Yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthyf. Dyma eu barn ac efallai nad dyna'r gwir na'r realiti ond credaf ei bod yn bwysig rhoi llais i bawb sy'n dilyn yr egwyddor cynnwys. Wrth gwrs, bydd gan gyrrff cyhoeddus hawl i ateb ac anghydfod yn erbyn y canfyddiadau hyn, ond maen nhw'n bwysig cael eu pwysleisio.
- Y cyfleoedd a'r heriau sy'n berthnasol i bob pwnc, gan osod yn gyntaf yr hyn sydd ei angen ar genedlaethau'r dyfodol ac yna asesu ble rydyn ni ar ein taith i gyflawni amcanion a nodau llesiant.
- Fy argymhellion ar beth i'w wneud neu roi'r gorau i'w wneud i bontio'r bwlch rhwng y presennol a'r dyfodol yr ydym am ei gyflawni i Gymru.

Mwynhewch y darlenniad a pheidiwch ag oedi cyn rhannu eich meddyliau #AdroddiadCD2020



@FutureGenCymru



@FutureGenCymru



Comisiynydd
Cenedlaethau'r
Dyfodol Cymru /
Future Generations
Commissioner for
Wales



A cluster of overlapping triangles in shades of teal, light green, and orange in the top right corner.

Pennod 1

Y weledigaeth



“Mae Llwfrda yn gofyn, ‘A yw’n ddiogel?’

Mae Hwylustod yn gofyn, ‘A yw’n wleidyddol?’

Mae Ymffrost yn gofyn, ‘A yw’n boblogaidd?’

Ond, mae cydwybod yn gofyn, ‘A yw’n iawn?’

Daw amser pan fydd yn rhaid gwneud safiad oherwydd bod ein cydwybod yn dweud wrth un ei bod yn iawn. ”



Dr Martin Luther King Jr

Pam fod llesiant yn bwysig?

Mae'n siŵr y bydd y '2010au' yn cael ei gofio fel degawd yr aflonyddwch byd-eang. Ac wrth edrych ar fisoedd cyntaf 2020 mae byw mewn byd ansicr sy'n newid yn gyflym yn sicr o barhau yn realiti newydd i ni. Trwy gydol y 2010au, dechreuodd i gadwynu'r status quo lacio, gyda digwyddiadau fel refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, ochr yn ochr â datblygiadau mewn technoleg, argyfwng hinsawdd byd-eang, y lefelau mudo uchaf erioed ac economi fyd-eang ansefydlog, fe ofynnwyd cwestiynau anesmwyth i wleidyddion a'r cyhoedd.

Mae cwestiynau am y dyfodol wedi hidlo i bob agwedd ar ein bywydau dydd i ddydd gan ein gorfodi i ail-werthuso a chwestiynu'r hyn sydd o'n blaenau yn gyson. O awtomeiddio, deallusrwydd artiffisial, pedwaredd don y chwyldro diwydiannol, argyfyngau hinsawdd a natur, llifogydd, dechrau COVID-19, mae'n amlwg nad dim ond ein gwyddonwyr neu athronwyr sy'n trafod y materion hyn. Mae'r rhain yn peri penblethau go iawn i'r rheini sy'n gweithio ym maes llunio polisiâu a gwasanaethau cyhoeddus. Ni ellir osgoi'r cwestiynau hyn. Mae'n anoddach edrych i ffwrdd ac i ddiswyddo'r materion hyn fel eu bod yn broblem i rywun arall.

Boed o ganlyniad i bwysau cyhoeddus neu realiti'r amgylchedd sy'n newid yn gyflym, mae llawer o wleidyddion yn effro i'r ffaith bod angen i ni weithredu heddiw er gwell yfory.

"Beth mae Cymru yn ei wneud heddiw, rydyn ni'n gobeithio y bydd y byd yn ei wneud yfory."

Cenhedloedd Unedig



Mae llawer o wledydd yn edrych i wella bywydau cenedlaethau'r dyfodol ac yn ymchwilio i syniadau fel Ombwdsman, Comisiynwyr a chyllidebau llesiant, ond Cymru yw'r unig wlad ar hyn o bryd sydd wedi deddfu ar gyfer hawliau cenedlaethau'r dyfodol.

Er bod Cymru yn feiddgar wrth gymryd y cam cyntaf hwnnw, mae gennym lawer o argyfyngau i'w hwynebu o hyd. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn atal problemau wrth fachu ar yr holl gyfleoedd y mae ein byd sy'n newid yn eu cyflwyno inni.

Er mai Cymru yw'r unig wlad i orfodi dyletswyddau i gyflawni datblygu cynaliadwy, mae wedi etifeddu rhai o'r cyfraddau uchaf o dlodi rhwng cenedlaethau, gordewdra plentyndod ac anghydraddoldebau ledled y Deyrnas Unedig.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi cyfle i newid hynny - ac i adael etifeddiaeth ar ein hol yr ydym yn falch ohoni. Wrth basio'r Ddeddf yn 2015, fe ddywedodd y Cenhedloedd Unedig, 'yr hyn y mae Cymru yn ei wneud heddiw, rydym yn gobeithio y bydd y byd yn ei wneud yfory', gan gydnabod y ffyrdd y mae fframwaith deddfwriaethol Cymru yn ategu at fentrau rhyngwladol fel y Nodau Datblygu Cynaliadwydd y Cenhedloedd Unedig.



Bellach mae angen i Gymru ddangos sut y mae'r fframwaith cyfreithiol hwn, sy'n arwain y byd, yn gyfrifol am newid go iawn ar lawr gwlad

Aeth Cymru ymhellach na'r diffiniadau rhyngwladol traddodiadol o ddatblygu cynaliadwy, gan fynd â hi y tu hwnt i bryderon amgylcheddol. Mae'r defnydd o'r term 'llesiant' yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ategu'r cysyniad llesiant yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Diffinnir ystyr 'llesiant' yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â 'pherson' ac mae'n gysylltiedig ag iechyd unigolyn; sy'n seiliedig ar ganfyddiad goddrychol o'n llesiant ein hunain. Mewn cyferbyniad, yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae 'llesiant' yn cyfeirio at gyflwr ein poblogaeth, ein cymdeithas a'n hamgylchedd ledled Cymru yn gyffredinol. Mae'n ceisio sicrhau bod gan bobl yr amodau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol o'u cwmpas i fod yn iach.

Yn hanfodol, mae pob un o bedwar dimensiwn llesiant (y cyfeirir atynt weithiau fel pileri), yr un mor bwysig fel na gellir blaenoriaethu'r economi ar draul yr amgylchedd neu'r gymdeithas, er enghraifft. Mae Cymru hefyd yn un o'r gwledydd cyntaf yn y byd i gydnabod pwysigrwydd llesiant diwylliannol i'n bywydau ac i wead ein cymdeithas.



Yr heriau o'n blaenau

Beth mae'n ei olygu i gynllunio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol? Gall y dyfodol edrych yn dywyll, ond nid oes rhaid iddo fod.

“Pan mae gwleidyddion yn methu ag edrych y tu hwnt i'r etholiad nesaf - neu hyd yn oed y trydar diweddaraf - maen nhw'n esgeuluso hawliau cenedlaethau'r dyfodol.”

Roman Krznaric

Efallai y bydd 25 mlynedd yn swnio fel amser hir, ond pan sylweddolwch mai dim ond 1995 oedd 25 mlynedd yn ôl, rydych chi'n sylweddoli pa mor anodd yw hi i gynllunio 25 mlynedd ymlaen.

Ym 1995, roeddem yn gwyllo'r ffilm Toy Story gyntaf, lanswyd Windows 95, cychwynnodd eBay gyntaf, cyhoeddwyd y DVD gyntaf, ac roeddem i gyd yn dysgu dawnsio i'r Macarena.

Ac eto yn 2020, mae technolegau fel awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial eisoes yn rhan o'n bywydau o ddydd i ddydd, o Siri ar eich iPhone, Alexa yn eich cegin, a Google Translate, i'r ffurfiau mwy uchelgeisiol o geir hunan-yrru neu llawdriniaethau yn cael eu perfformio gan robotiaid.

Efallai y bydd meddwl am y dyfodol yn swnio fel rhywbeth sy'n cwmpo rhwng sêr-ddewiniaeth a dadansoddi tebygolrwyddau, ond mae'n arfer hanfodol os ydym am ateb yr heriau sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Meddwl am genedlaethau o'n blaenau yw'r norm i rai diwylliannau. Anogir yr Iroquois, er enghraifft, i fyw a gweithio er budd saith cenedlaeth i'r dyfodol (dros tua 140 mlynedd).

Mae'n hanfodol ein bod yn ymwybodol o'r heriau sydd o'n blaenau, er mwyn atal i ni faglu i mewn i ddyfodol na fyddai unrhyw un ei eisïau.

Cymru a'r byd: y cyd-destun byd-eang

Fel y mae effeithiau COVID-19 yn parhau i ddangos, mae Cymru yn rhan o gymuned fyd-eang ac yn agored i dueddiadau a brofir ar draws gweddill y Byd.

Bydd rhai o'r newidiadau hyn yn cael mwy o effaith ar Gymru nag eraill. Ar y dudalen nesaf rwyf wedi nodi'r 'tueddiadau i'w gwyllo', y meysydd a allai gael yr effaith fwyaf ar lesiant ein cenedlaethau i ddod.

"Ym mhob trafodaeth, rhaid i ni ystyried effaith ein penderfyniadau ar y saith cenedlaeth nesaf."

O Gyfraith Fawr
Cydffederaliaeth Iroquois



© Cartwnydd Jerm o'r De Affrig



Dirywiad ym myd natur, yr hinsawdd a phrinder adnoddau:

- Yn 2018, [rhybuddiodd y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd](#) fod gennym 12 mlynedd i achub y blaned, trwy gadw lefelau cynhesu byd-eang i 1.5 ° C ar y mwyaf. Mae bellach yn 2020 a dim ond 10 mlynedd sydd gennym ar ôl.
- [Mae'r hinsawdd eisoes yn cynhesu \(1°C yn gynhesach na lefelau cyn-ddiwydiannol\)](#), gyda llawer o'r effeithiau megis cynhesu'r awyrgylch is; asideiddio ein moroedd; lefelau'r môr yn codi, rhewlifoedd yn dirywio a rhew môr, eisoes yn cael eu canfod.
- Disgwylir i dymheredd cynyddol hefyd arwain at ganlyniadau uniongyrchol i iechyd pobl. Disgwylir i nifer cyfartalog y [marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwres yn y Deyrnas Unedig fwy na threblu i 7000 y flwyddyn, erbyn yr 2050au](#).
- Rhagwelir y bydd myfyriwr graddedig 21 oed ar incwm cyfartalog yn [colli £82,000 o incwm yn ystod ei oes](#), a disgwylir i'w blant golli bron i deirgwaith hynny, oherwydd baich economaidd newid yn yr hinsawdd.
- Ar lefel fyd-eang, bydd newid yn yr hinsawdd ynghyd â thwrf economaidd a ysgogwyd gan farchnadoedd sy'n dod i'r amlwg, yn arwain at gyfyngiadau cynyddol ar argaeledd dŵr. Gall y byd wynebu [senario debyg i'r Sahara, lle bydd y cysyniad o ddŵr fel adnodd 'adnewyddadwy'](#) yn dod yn beth o'r gorffennol.
- [Dywedodd Llwyfan Polisi Gwyddoniaeth Rhynglywodraethol ar Fioamrywiaeth a Gwasanaethau Ecosystem](#) fod natur yn gostwng yn fyd-eang ar gyfraddau na welwyd eu tebyg yn hanes dyn a bod cyfradd difodiant rhywogaethau yn cyflymu.
- Yn y Deyrnas Unedig, bu dirywiad o [13% yn nifer y rhywogaethau ar gyfartaledd ers 1970](#), gyda 15% o rywogaethau dan fygythiad o ddifodiant, gan wneud y Deyrnas Unedig ymhlith y gwledydd mwyaf ddisbyddiedig o ran natur yn y byd.
- Bydd effeithiau newid yn yr hinsawdd ar fioamrywiaeth a byd natur yn fyd-eang yn [arwain at ddirywiad trychinebus poblogaethau i lawer o rywogaethau](#) a cholli rhai ecosystemau yn llwyr, fel cwrel.
- Gwariwyd tua £456 miliwn o arian sector cyhoeddus y Deyrnas Unedig ar fioamrywiaeth yn y Deyrnas Unedig yn 2017-18. Mae'r cyllid wedi gostwng bron i draean yn y 5 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r swm y mae'r Deyrnas Unedig yn ei wario ar cadwraeth bioamrywiaeth rhyngwladol wedi mwy na dyblu dros yr un cyfnod amser, ac mae gwariant cyrff anllwywodraethol ar fioamrywiaeth a chadwraeth hefyd wedi cynyddu tua chwarter, [gan gyrraedd £239 miliwn yn 2017-18](#).

Gweler Pennod 3 a 5 am ragor o wybodaeth ac argymhellion.



Beth mae / gallai hyn ei olygu i Gymru?

Bydd gwneud dim ar newid hinsawdd yn arwain at oblygiadau i bob un ohonom. Gall fod yn anodd dychmygu sut y gallai hynny edrych i Gymru, ond gall y llifogydd digynsail a welsom ym mis Chwefror 2020 roi syniad o'r hyn sydd i ddod. Efallai y byddwn hefyd yn disgwyl gweld:

- [Ansawdd aer gwaeth](#), os na fyddwn ni ac eraill ledled y byd yn lleihau allyriadau. [Mae ansawdd aer awyr agored gwaeth eisoes wedi'i gysylltu â rhwng 28,000 a 50,000 o farwolaethau bob blwyddyn yn y Deyrnas Unedig](#) gyda plant, yr henoed, neu'r rhai â chyflyrau meddygol presennol mewn perygl fwyaf.
- Mae hafau poethach a sychach, gyda risgiau o danau a sychder yn effeithio ar iechyd pobl, cynydau a da byw, a gaeafau gwlypach, gyda stormydd a llifogydd yn amlach ac yn fwy difrifol. O dan senario allyriadau canolig, disgwylir i Gymru gael 14% yn fwy o lawiad yn y gaeaf a 17% yn llai o lawiad yn yr haf erbyn 2050.

- Cynnydd yn lefelau'r môr, gan roi ein trefi arfordirol a'n dinasoedd mewn perygl o lifogydd oni bai bod arian yn cael ei wario ar amddiffynfeydd ac addasu hinsawdd. Mae lefelau'r môr wedi codi 16cm er 1900, a byddant yn parhau i godi am ganrifoedd oherwydd llusgo amser yn y [system hinsawdd](#).

Ar hyn o bryd mae Cymru'n defnyddio gwerth dwy blaned a hanner o adnoddau, gyda thaflwybrau cyfredol yn dangos y bydd hyn werth hyd at dair planed erbyn 2050. Os ydym yn parhau i fyw y tu hwnt i fodd ein byd naturiol, rydym yn peri risgiau difrifol i less ein pobl a'n planed.

Y newyddion da yw bod maint y gwastraff a gynhyrchir yng Nghymru sy'n mynd i [safleoedd tirlenwi wedi bod yn lleihau ers 2004](#). Y newyddion drwg yw ein bod eisoes wedi gweld dirywiad o 60% mewn [bioamrywiaeth fyd-eang yn yr 50 mlynedd diwethaf](#). Oni bai ein bod yn parhau i weithredu, efallai na fydd cenedlaethau'r dyfodol byth yn adnabod byd ag orangwtaniaid neu rhinos duon - neu, yn agosach at adref, yn gallu gweld draenogod, gloŷnnod byw neu adar canu yng nghefn gwlad Cymru.

Gweler yr adrannau ar Gymru Gydnerth (Pennod 3) a Datgarboneiddio (Penodau 2 a 5) i gael mwy o wybodaeth ac argymhellion.



Poblogaethau esblygol a newidiadau demograffig

- Disgwylir i'r boblogaeth fyd-eang gyrraedd 8 biliwn erbyn 2030. Erbyn 2028, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi rhagweld y bydd y Deyrnas Unedig yn gartref i 3 miliwn o bobl ychwanegol, gyda chyfanswm y boblogaeth yn pasio 70 miliwn o bobl erbyn canol 2031. Yn yr amser hwn bydd poblogaeth Lloegr wedi tyfu fwyaf, tua 5%, [tra bydd poblogaeth Cymru wedi tyfu leiaf, 0.6%](#).
- [Mae adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol](#) Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd 3.25 miliwn o bobl yn byw yng Nghymru erbyn 2036 - cynnydd o tua 10 mlynedd o oddeutu 140,000 o bobl. Bydd y rhan fwyaf o'r cynnydd hwn o ganlyniad i bobl yn symud i Gymru o wledydd eraill (67%) neu o'r Deyrnas Unedig (29%) gyda dim ond 3% o'r newid oherwydd cyfraddau genedigaeth a marwolaeth.
- Y newid mwyaf ym mhoblogaeth Cymru fydd [y cynnydd yn nifer y bobl hŷn](#). Erbyn 2041 bydd bron i chwarter miliwn (223,924) yn fwy o bobl dros 65 oed, tra disgwylir i nifer y bobl 80 oed a hŷn gynyddu mwy na chwarter yn y 10 mlynedd o 2016, a dros 80% yn 25 mlynedd.
- Mae gwledydd yn dod yn fwy a mwy trefol. Bob wythnos, mae 1.5 miliwn o bobl [yn symud i ddinasoedd a threfi yn fyd-eang](#). Yn y Deyrnas Unedig, rhagwelir y bydd dros 92% o boblogaeth y Deyrnas Unedig [yn byw mewn dinasoedd erbyn 2030](#). Er bod y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn byw mewn trefi a dinasoedd, mae ganddo hefyd boblogaeth wledig fawr gyda thua 1 o bob 3 o bobl yn byw mewn ardaloedd a elwir yn wledig, o'i gymharu â dim ond [1 o bob 5 o bobl yn Lloegr](#).
- Rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd yng Nghymru yn tyfu'n gyflymach na'r boblogaeth rhwng 2016 a 2039, gyda mwy o bobl eisiau byw ar eu pennau eu hunain neu mewn grwpiau teulu llai. Er mwyn cwrdd â'r galw cynyddol hwn am dai, mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd angen 8300 o dai newydd ar gyfartaledd ar Gymru bob blwyddyn tan 2023 ac yna 4000 y flwyddyn tan ganol yr 2030au. Disgwylir i Gaerdydd fod â'r nifer fwyaf o aelwydydd ac wedi gweld [y cynnydd mwyaf yn y nifer, erbyn 2024](#).



Beth mae hyn yn ei olygu i Gymru?

Bydd newidiadau poblogaeth Cymru dros y blynyddoedd i ddod yn ddibynnol iawn ar fudo, a thrwy estyniad, y ffactorau a allai effeithio ar benderfyniadau pobl i symud i Gymru neu adael Cymru, megis Brexit neu argaeledd swyddi. Gallai hyn effeithio'n arbennig ar nifer yr oedolion o oedran gweithio ym mhoblogaeth Cymru, y rhagwelir ar hyn o bryd o [ostwng bron i 5% erbyn 2041](#).

- Ar y cyfan, mae poblogaeth Cymru ar fin heneiddio. Er bod pobl yn byw yn hirach, nid ydyn nhw o reidrwydd yn byw mewn iechyd da: yn 65 oed, gall y mwyafrif o bobl yng Nghymru ddisgwyl treulio ychydig dros hanner eu hoes mewn iechyd da, ac erbyn 2025 gallai fod [50,000 o bobl yn y grŵp oedran hwn yn byw gyda dementia](#).

Mae eisoes yn wir bod cost gofal aciwt yng Nghymru yn cynyddu gydag oedran y claf, o lai na £400 yr flwyddyn i rai dan 40 oed, i rhwng £1000 a £2500 y flwyddyn i bobl yn eu 60au a'u 70au, a hyd at £3500 i'r rhai dros 85 oed. Mae hefyd yn bwysig ein bod ni fel cymdeithas yn gwneud y gorau o'r gwerth y gall pobl hŷn ei roi i gymunedau lleol a chymdeithas ehangach.

Gweler yn benodol yr adrannau ar Gymru Iachach, a Chymunedau Cydlynus ym Mhennod 3.

Tlodi ac anghydraddoldeb

- Mae anghydraddoldebau cynyddol rhwng rhanbarthau yn y byd, o fewn gwledydd a rhwng pobl gyfoethog a thlawd ym mhob gwlad. [Mae 1% o bobl cyfoethocaf y byd yn berchen ar fwy na hanner cyfoeth y byd](#), ac os bydd y tueddiadau cyfredol yn parhau, maent ar y trywydd iawn i reoli dros ddwy ran o [dair o gyfoeth byd-eang erbyn 2030](#).
- Yng Nghymru, mae tua chwarter (24%) y bobl yn byw mewn tlodi, [ymhlith y lefelau uchaf yn y Deyrnas Unedig](#). Mae hyn yn cynnwys dros 200,000 o blant, neu oddeutu [1 o bob 3 o'r cyfanswm](#). Cymru oedd yr unig genedl yn y Deyrnas Unedig i weld cynnydd mewn tlodi plant pan gafodd ei [hasesu ddiwethaf yn 2017-18](#).
- Mae mwy na hanner y bobl sy'n byw mewn tlodi yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys 7 o bob 10 o blant, mewn teulu sy'n gweithio; cynnydd o 17% yn yr 20 mlynedd diwethaf. Mae hyn oherwydd nad yw cyflog pobl, eu horiau, neu'r ddau weithiau, yn ddigon i gael dau ben llinyn ynghyd. Yng Nghymru, cafodd mwy nag 1 o bob 4 gweithiwr lai na'r [Cyflog Byw Go lawn yn 2017-18](#).
- Mae tri o'r 10 awdurdod lleol mwyaf anghyfartal yn y Deyrnas Unedig o ran llesiant [yng Nghymru](#). Blaenau Gwent yw'r mwyaf anghyfartal, gyda Castell-nedd Port Talbot a Merthyr Tudful yn dod yn drydydd a phedwerydd.



Beth mae hyn yn ei olygu i Gymru?

Mae bron i 1 o bob 4 o bobl yng Nghymru yn byw mewn tldi, gan gynnwys tua thraean o'r holl blant. Yn aml, y tlotaf a rhai mwya' bregus yn ein cymdeithas sy'n dioddef fwyaf, a gallwn eisoes weld effaith hyn wrth edrych ar ganlyniadau iechyd. Er bod disgwyliad oes yng Nghymru wedi cynyddu ar y cyfan, mae disgwyl i'r rheini yn yr ardaloedd cyfoethocaf fyw hyd at naw mlynedd yn hirach yn gyffredinol a bron i 18 mlynedd yn hirach, i'r rhai mewn iechyd gwell, [na'r rhai yn yr ardaloedd tlotaf](#).

O fod yn agored i'r lefelau uchaf o lygredd aer, i fod yn y risg fwyaf o golli swyddi oherwydd awtomeiddio, mae'r tueddiadau cyfredol yn dangos bod y bwlch mewn llesiant rhwng cyfoethog a'r tlawd mewn perygl o ehangu yn y dyfodol.

Bydd y penderfyniadau a wnawn ynghylch buddsoddiadau seilwaith, systemau lles a chymorth, lleoliad, tâl a'r math o waith sydd ar gael yng Nghymru, yn cael effaith sylweddol ar sut mae'r duedd hon yn datblygu dros y blynnyddoedd i ddod.

Gweler yn benodol yr adrannau ar ym Mhennod 3 ar Gymru Iachach, Cymru sy'n Fwy Cyfartal a Cymru Lewyrchus, a Phennod 5 - Tai, Sgiliau a Thrafnidiaeth.

Newid technolegol


Newid technolegol yw un o'r prif ffactorau aflonyddgar ar gyfer y dyfodol. Ystyrir y tueddiadau a'r cwestiwn yn fanwl yn adran Sgiliau ym Mhennod 5.



Y Gymru a garem 2050

Bydd Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn manylu ar y weledigaeth hon a nodir yn y nodau llesiant ac mae'r adran hon yn rhoi cipolwg ar sut y gallai Cymru fod pe byddem yn cyflawni nodau o'r fath.

- Mae ein busnesau, gwasanaethau cyhoeddus, y trydydd sector a'r llywodraeth wedi gweithio gyda'i gilydd i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae Cymru yn wlad ddi-garbon.
- Rydym wedi disodli ein system iechyd draddodiadol â gwasanaeth llesol cyfannol. Mae dal gennym ysbytai, adran damweiniau ac achosion brys a chanolfannau ar gyfer trin damweiniau ac afiechydon o hyd, ond mae'r prif ffocws ar atal a chadw pobl yn iach.
- Mae gennym fwy o fynediad i fannau gwyrdd ac rydym yn teimlo'n fwy cysylltiedig â'r amgylchedd, gyda phobl yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i wella eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.
- Mae technoleg wedi helpu i gadw pobl yn iachach am gyfnod hirach ac mae cynnydd mewn genomeg yn ein helpu i ragfynegi ac atal salwch cyn iddynt ddigwydd.
- Mae tai yng Nghymru yn hawl ddynol sylfaenol. Mae ein cartrefi yn ynni-ffeithlon, gyda safonau gofod mwy hael a strwythurau mewnol y gellir eu haddasu, ac maent yn gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd.



- Mae technoleg wedi'i hintegreiddio ledled ein cartrefi, gan wneud ein bywydau'n haws, yn enwedig i'r rheini ag anghenion cymorth ychwanegol. Mae ein hiechyd a'n llesiant cyffredinol yn cael eu gwella oherwydd y gwell tai hwn, ac mae ein cymunedau'n fwy bywiog a chydlynus.
- Mae diwylliant, y celfyddydau, a chwaraeon hamdden yn rhan o'n bywydau bob dydd; sy'n helpu i'n cyfoethogi a'n cadw'n iach. Mae'r Gymraeg yn ffynnu, gyda dros filiwn o bobl yng Nghymru yn siarad Cymraeg yn ddyddiol.
- Mae ein system gynllunio yn caniatáu ar gyfer mannau gwyrdd, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a rheoli dŵr, gan ganiatáu i'n cynefinoedd naturiol ffynnu. Mae bioamrywiaeth yng Nghymru yn ffynnu, ac mae gan bawb fynediad i fannau gwyrdd.
- Trwy ddull creu lleoedd, nid yw cynllunio bellach yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n stopio wrth ffiniau awdurdod lleol, ac mae'r system yn integredig.
- O ran ein gwastraff, rydym wedi symud o fodel defnyddio a gwaredu i un lle rydym yn lleihau, yn ailgyflenwi, yn adfer ac yn adfywio mewn ffyrdd newydd i greu cynhyrchion newydd.



Y Gymru a garem yn 2050

- Mae mynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod wedi'i wreiddio'n ddwfn yn niwylliant gwasanaethau cyhoeddus Cymru ac mae nifer y plant sy'n byw gyda phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn isel iawn. Mae'r system yn helpu'r unigolyn ac nid yw bellach yn delio â mater penodol yn unig.
- Mae poblogaeth Cymru yn mwynhau swyddi o safon sy'n ddiogel i'r economi fyd-eang yn y dyfodol; codi pobl allan o dlodi a'u galluogi i gyrraedd eu potensial.
- Mae cysylltedd digidol, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, wedi helpu pobl i leihau'r angen i deithio, gan wella cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac mae wedi galluogi pobl i gael mynediad rhwydd at y gwasanaethau cyffredinol, sylfaenol a'r cyfleoedd dysgu gydol oes sydd eu hangen arnynt sy'n cefnogi bywyd bob dydd, waeth ble maent yn byw. Bydd rhwydweithiau cymunedol a diwylliannol cryf.
- Nid yw ein cyflogau bellach yn cael eu hystyried yn fesur o'n gwerth. Mae ysgolion yn dysgu sgiliau am oes i ni, ac rydyn ni'n treulio mwy o amser y tu allan, yn greadigol ac yn dysgu sgiliau trosglwyddadwy.
- Mae technoleg yn rhyddhau mwy o amser inni wneud y pethau rydyn ni'n eu mwynhau ac mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi dysgu gydol oes. Mae pobl yn cael eu grymuso gan ymdeimlad o bwrpas i wneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw ac mae mynediad cyfartal i bob gyrfa.

- Mae ein system drafnidiaeth yn integredig, yn hyblyg ac yn aml-foddol. Mae'n gwbl hygyrch ac yn fforddiadwy, er ei fod yn ddi-garbon. Rydyn ni'n treulio llai o'n hamser yn cymudo i'r gwaith ac rydyn ni'n gallu treulio mwy o amser gyda'n teuluoedd neu wneud y pethau rydyn ni'n eu mwynhau.



Ble nesaf?

Yn ffodus, nid yw'r dyfodol yn sefydlog. Mae'r camau rydyn ni'n eu cymryd, neu ddim yn eu cymryd heddiw, yn gwneud gwahaniaeth i'r dyfodol rydyn ni'n ei weld yfory.


Er bod yna lawer o bethau anhysbys, ansicrwydd a sawl syrpréis annisgwyl o gwmpas y gornel, mae yna lawer o gyfleoedd hefyd, syniadau newydd, angerdd a gweledigaeth. Gallwn fynd â Chymru tuag at y dyfodol yr ydym ei eisiau.

Rwy'n cael fy nghalonogi i weld bod yna lawer o ffyrdd y mae cyrff cyhoeddus, busnesau, y trydydd sector a chymunedau eisoes yn gweithredu i fynd â ni tuag at y Cymru a garem. Ledled Cymru. Ar draws y Byd.

Trwy wneud penderfyniadau a champau gweithredu beiddgar nawr gallwn sicrhau bod gan ein plant a phlant ein plant ddyfodol hapus, iach a diogel o'u blaenau. Dyma ein gweledigaeth genedlaethol ar gyfer Cymru yn 2050.

Mae pob pennod o'r adroddiad hwn yn darparu manylion am yr hyn y mae'r weledigaeth statudol gyffredin hon yn ei olygu yn ogystal â darparu cyngor ar sut y gallem ei wireddu.

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio darparu'r ysbrydoliaeth, y syniadau a'r argymhellion i'n helpu ni i gyd i gyflawni'r weledigaeth hon a chreu'r Cymru a garem ar gyfer cenedlaethau presennol a'r dyfodol.





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

